28ain o Hydref 2020

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 3ydd o Dachwedd 2020 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 6ed o Hydref 2020 (**Atodiad Gwyrdd**).
(ii) Pwyllgor Cyllid, 20fed o Hydref 2020 (**Atodiad Coch**).
(iii) Pwyllgor Adloniant, 22ain o Hydref 2020 (**Atodiad Pinc)**

6.Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Sul y Cofio

Cyflwyno adroddiad y Clerc ar Sul y Cofio, 8fed o Dachwedd (copi ynghlwm).

9. Adeilad yr Institiwt

Cyflwyno adroddiad y Clerc ar Adeilad yr Institiwt (Copi ynghlwm).

10. Cysgodfannau Bysus

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad ar Gysgodfanau Bysus.

11. Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22

(a) Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor cyflwynwyd gwybodaeth fod Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22 wedi ei gyhoeddi, a gofynnir am sylwadau erbyn y 23ain o Dachwedd 2020. Penderfynwyd gofyn i aelodau anfon unrhyw sylwadau at y Clerc mewn da bryd er mwyn gallu eu hanfon i mewn erbyn y 23ain o Dachwedd 2020.

(b) Cyflwyno'r e-bost efo manylion y linc, y llythyr a'r dudalen sy'n crynhoi'r tudalennau perthnasol o'r adroddiad (Copi ynghlwm).

12. Ymgynghoriadau

Cyflwyno gwybodaeth am yr ymgynghoriadau canlynol:

(a) Ymgynghoriad rhithiol ar fferm wynt ar y môr Awel y Môr (Copi ynghlwm).

(b) Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (dyddiad cau 4ydd o Ionawr 2021). (Mae copi o'r e-bost perthnasol ynghlwm).

(c) Ymgynghoriad ar Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (dyddiad cau 4ydd o Ionawr 2021). (Mae copi o'r e-bost perthnasol ynghlwm).

(ch) Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio

- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (rhan 4.6 a paragraff 6.2.1)
- Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu.

(Mae copi o'r ohebiaeth ynghlwm).

13. Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru

Cyflwyno gwybodaeth am gwrs ar-lein Cymorth Cynllunio Cymru 'Cynllunio: O'r Dechrau i'r Diwedd' yn benodol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (copi ynghlwm).

14. Parc Coed Helen

Mae cais wedi dod i Gyngor Gwynedd gan Carousel Amusements i osod carousel ym Mharc Coed Helen rywbryd yn y dyfodol. Gan fod posibilrwydd mai'r Cyngor Tref fydd yn gyfrifol am Parc Coed Helen erbyn i'r cais ddod i rym, gofynnir os oes gennym wrthwynebiad i hynny.

Cyflwyno Asesiad Risg a'r gwaith papur cysylltiedig (copi ynghlwm).

15. Sgrîn Fawr

Yn sgîl Covid-19, gofyn am arweiniad y Cyngor o ran beth ddylid ei wneud o ran y Sgrîn Fawr ar y Maes eleni:

(a) Llogi ar gyfer penwythnos 18fed / 19eg o Ragfyr;
(b) Llogi ar gyfer penwythnos 11eg /' 12fed o Ragfyr a'r 18fed / 19eg o Ragfyr;
(c) Peidio llogi o gwbl.

16. Cais Trwydded eiddo: Clwb Iotio Brenhinol Cymru, Porth Yr Aur

Cyflwyno'r cais uchod, er mwyn cyflwyno sylwadau erbyn y 4ydd o Dachwedd (Copi ynghlwm).

17. Gwersylla Anghyfreithlon

Cyflwyno ymateb Cyngor Sir Ceredigion o ran y llythyr anfonwyd atynt ar wersylla anghyfreithlon. (Copi ynghlwm).

18. Cydweithio efo Trefi Gwynedd

Cyflwyno gohebiaeth gan Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd. (Copi ynghlwm).

19. Cwestiynau